**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 20 o DACHWEDD 2023, AM 6:00 Y.H. DRWY ZOOM.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Philip Roberts, Gwynedd Williams, Richard Robinson, Hefin Jones, Ann Lawton, Berwyn Parry Jones, Beca Brown.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Rhys Parry

**AELOD O'R CYHOEDD**: Roedd pum aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**CYFIEITHYDD:** Lowri Gwyn o Lingo Cyf

**CLERC:** Meirion Jones

**1220. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb pawb

**1221 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel y nodwyd uchod

**1222. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1223. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Hydref 2023**

Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1224. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 17 Hydref 2023.**

Cyflwr y wal ger Ysgol Brynrefail

Cadarnhaodd y cynghorydd Beca Brown ei bod wedi bod mewn cysylltiad Chyngor Gwynedd sawl gwaith ond hyd yma ddim wedi derbyn dim diweddariad

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y diweddariad

**1225. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

**1)** Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, fod y Pwyllgor wedi cyfarfod ar 24ain o Hydref 2023 ac fe adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers mis Mai. Fe aethpwyd drwy'r gyllideb a gwariant ac fe'i haddaswyd yn briodol yn nhyb y pwyllgor ond bydd angen edrych ar y gyllideb eto ar ôl y Nadolig oherwydd y bydd yn amser i gyflwyno ein praesept ar gyfer 2024/2025.

**2)** Penderfynodd y pwyllgor gymeradwyo gwariant o £7k ar gyfer rhoi llawr pwrpasol ar y gampfa yng Nghwm y Glo. Byddai rhoi'r llawr i lawr yn galluogi y byddai'r gampfa yn cael mwy o ddefnydd a hefyd yn cywiro ffaeleddau a adnabuwyd yn yr asesasid risg. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r gwariant.

**3)** Adroddwyd fod angen edrych ar y rheoliadau ariannol sydd ddim wedi newid ers peth amser bellach a bod angen eu hadnewyddu yn sgil newidiadau mewn trefniadau bancio a gwariant. Mae rhaid nodi nad ydi llawer iawn o fusnesai bellach yn derbyn sieciau a'i fod yn hanfodol pan mae'r cyngor yn prynu gwasanaethau neu nwyddau ei fod yn cael y gwerth posib am arian. Golyga hyn fod angen cerdyn debyd i fanteisio ar y prisiau gorau ar y fewnrwyd.

**4)** Adroddwyd fod angen gwneud archwiliad o ba wybodaeth sydd ar ein gwefan a bod angen tynnu rhai pethau i ffwrdd ac ychwanegu materion eraill. Rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i Gofnodion pwyllgorau'r cyngor a manylion sut i gysylltu â llogi'r Sefydliad Coffa er enghraifft.

**5)** Bu trafodaeth am gostau'r clwb ieuenctid ond adroddwyd fod arian ar gyfer costau'r clwb yn y gyllideb ar gyfer hyn.

**6)** Nodwyd fod y cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisi grant disgresiwn ond hyn yma nid oedd wedi ei hysbysu. Awgrymwyd y byddai yn bosib hysbysebu'r cynllun nawr o flaen y gaeaf

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn a diolch am yr adroddiad
2) Cymeradwyo'r gwariant ar y gampfa allanol, Cwm y Glo
3) Y Clerc i ddrafftio polisi i adlewyrch trefniadau ariannol ac yna i'w gylchredeg gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor
4) Y Clerc, gyda'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd i gyfarfod a mynd drwy'r wefan
5) Derbyn y wybodaeth
6) Cytunwyd i hysbysebu'r polisi

Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiadau

**1226. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod llawn o'r cyngor diwethaf.

Fodd bynnag nodwyd y canlynol:-

a) Dim dyddiadau casglu sbwriel ar hyn o bryd ond i ail gychwyn ym mis Mawrth ac edrych ar newid y trefniadau.
b) Rhoi manylion a gwybodaeth am y dyddiadau casglu sbwriel yn y newyddlen
c) Fod rota ar gyfer archwilio'r gampfa wedi wneud

d) Caeau Chware – adroddwyd fod ein contractwr yn parhau i wneud y gwaith ar y caeau chwarae ac wedi casglu sawl bag o sbwriel oddi ar gae nant y Glyn, yn cynnwys poteli sydd wedi torri.
e) Eisoes wedi trafod llawr y gampfa i symud ymlaen a'r gwaith
f) Wedi cyfarfod a theulu'r diweddar Charles Jones a Brian Jones a'r teulu yn hynod o ddiolchgar am i'r cyngor ddarparu'r coed er cof amdanynt.
g) Coed Nadolig wedi eu harchebu a bydd Cyngor Gwynedd yn eu gosod a hefyd yn gwneud y gwaith trydan.
h) Cystadleuaeth Nadolig 2023 - Cystadleuaeth ar agor rhwng 1 a 10fed o Ragfyr gyda beirniadu ar wythnos 11 o Ragfyr - penderfynwyd ar y 14 o Ragfyr gyda'r canlynol yn beirniadu

   Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Beca Brown, Avril Jones, Ann Lawton

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1227. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent y canlynol

Mynwent y Flwyddyn -Cyhoeddusrwydd (sesiwn lluniau wedi digwydd,11.11.23)

Cyfarfod y pwyllgor : 14.11.23 –

Trafodwyd / Penderfyniadau

Ysgrifennu a chyhoeddi FAQs ynglŷn â thorri gwair i'w roi ar safle we'r cyngor erbyn cyfarfod y Cyngor llawn mis Ionawr 2024.

Gweithredoedd gwyrdd :parhau gydag ymchwilio i mewn i bwrcasu bin brown i'r fynwent a chamau i hyrwyddo defnydd o flodau di-blastig, cynaliadwy. Angen penderfynu wedyn am bolisi Gwyrdd annibynnol i'r Fynwent.

Gweithredoedd tymor byr :

glanhau llwybrau, cyhoeddi rheolau ynglŷn â thorchau adeg Nadolig.

Cynllunio tymor hir angen amcangyfrif o gostau gwaith ar y waliau a'r ffensys yn y fynwent a chreu gofod trwy leihau'r maes parcio.

Asesiadau risg dyddiad cyn 31.3.24 a rhybudd o blaen llaw.
Cyfarfod cyswllt gyda'r contractwr torri gwair i drafod cwyn am y toriadau gwair yn y fynwent a chymerodd lle ym mis Medi (18.11.23).-trafodwyd dulliau a chostau torri gwair, toriad ychwanegol ym mis Tachwedd, gwaith llwybrau. Gwybodaeth nawr ar gael i ymateb i gwynion.
Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor, 8/1/24 am 6.30 y.h. ar lein : prif eitem bydd blaenoriaethau 24/25.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1228. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant, y canlynol

Eu bod wedi gallu rhannu a dosbarthu 3 focs o lyfrau ar gyfer oedolion a phlant roedd yn derbyn pecynnau bwyd

Y bydd ffurflenni grant disgresiwn yn cael eu rhannu i bawb nos Wener nesaf

Fod y cyngor wedi derbyn y grant uchafswm o £3,000 ar gyfer y cynllun bwyd

Nodyn i fynd gyda dosbarthiadau bwyd yn hysbysebu na fydd wyau i'w cael am wythnos

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1229. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, cynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr y canlynol:

Arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol rhwng 20-24 Tachwedd.

Llywodraethwyr wedi cael y cyfle i gyfrannu at y proses trwy lenwi holiadur ar lein wythnos cyn yr ymweliad.

Bydd adborth answyddogol i'r staff ar ddiwedd yr ymweliad a chyhoeddir yr adroddiad swyddogol ar safle we Estyn ym mis Chwefror 2024.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1230. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown**

Lleol

Llawer o gyfarfodydd wedi bod ynghylch tir a Thŷ'r Ysgol, gan gynnwys ymweliadau â'r ysgol a chyfarfodydd yn y cyngor.

Cyfarfod efo swyddog grantiau'r cyngor er mwyn edrych ar bosibiliadau cymunedol.

Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r noson yn y Penbont oedd yn codi arian i'r Cynllun Bwyd.

Gwych gallu rhoi llyfrau plant allan efo'r bwyd, diolch i grant gan y Cyngor Llyfrau. Mae hi mor bwysig fod pob plentyn yn cael mynediad at lyfrau ac yn cael datblygu'n ddarllenwyr hyderus.

Diolch i dîm Cyngor Gwynedd am y gwaith trwsio lôn sydd wedi digwydd ger Bro Rhythallt a thafarn Penbont.

Diolch i griw'r Tîm Tacluso am ddod allan mor sydyn i glirio'r chwyn o'r pafin ar dop Ffordd yr Orsaf.
Diolch i grant unigedd gan Gyngor Gwynedd a mudiadau trydydd sector bydd digwyddiadau te pnawn ac adloniant yn digwydd yn y Sefydliad, a'r un cyntaf ar Ragfyr 15fed.

Cyngor

Cyfnod heriol eto o baratoi ar gyfer gosod cyllideb. Mae hi'n dynn iawn ar awdurdodau lleol ymhobman a phenderfyniadau anodd yn wynebu cynghorwyr.

Mae strategaeth addysg ar y gweill fydd yn gosod cyfeiriad y blynyddoedd nesaf yng Ngwynedd.

Mae cynllun digidol newydd ar y gweill fydd yn edrych ar faterion fel cyswllt y cwsmer efo'r cyngor.

Mae gweithgor yn dechrau edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd, gan osod amserlen ar gyfer y gwaith.

Hyfforddiant amrywiol wedi ei dderbyn, yn cynnwys County Lines a Seibr-Ddiogelwch.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1231. Cais am gyfraniad ariannol – Llewod Llanrug**

Derbyniwyd cais am grant ariannol oddi wrth Llewod Llanrug

**Penderfynwyd:** Cyfrannu £800 tuag at Llewod Llanrug

**1232. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0863/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad llawr cyntaf i ochr yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Mr Adam Harman
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Llwyn Onn, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DD

**Cyfeirnod Grid:** 255118.66, 362729
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C23/0852/23/TC
**Math o Gais:** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon
**Bwriad:** Bwriadir gadw 323 o garafanau gwyliau/cabanau gwyliau ar draws Parc Gwyliau Brynteg, i gynnwys cyn ardal cwrs golff gorllewinol (ardal wedi ei linellu'n wyrdd).
**Ymgeisydd:** Mr M Purdom (Park Holidays UK Limited)
**Asiant:** Mr David Middleton (Savills (UK) Limited)
**Cyfeiriad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF
**Cyfeirnod Grid:** 254406.79, 362241.63
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Gwrthwynebu oherwydd pryder byddai hyn yn rhoi'r hawl iddynt roi mwy o garafanau ar y safle.

c) **Rhif y Cais:** C23/0836/23/DT
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Gwaith adnewyddu arfaethedig a tho newydd i'r garej a'r storfa bresennol /
**Ymgeisydd:** (Spraycon)
**Asiant:** Mr Don Westley
**Cyfeiriad:** Bryn Awel, Llanrug, LL55 4AG
**Cyfeirnod Grid:** 254095.78, 363687.82
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad ond yn rhannu pryderon Dŵr Cymru a gobeithio bydd y rhain yn cael eu lleddfu

d) **Rhif y Cais:** C23/0814/23/AC
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Estyniad llawr cyntaf uwchben ystafell amlbwrpas - cynlluniau diwygiedig.
**Ymgeisydd:** Mr Daniel Yates
**Cyfeiriad:** Bwlch Cottage Lôn Bwlch, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4ED
**Cyfeirnod Grid:** 254932.05, 362266.44
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Dim Gwrthwynebiad

**1233.** **I dderbyn diweddariad ar sefyllfa Tŷ'r Ysgol, Llanrug yn dilyn penderfyniad y cyngor yn ei gyfarfod 17 Hydref 2023 (eitem 1212 ac 1213) ac i geisio barn am gynnal cyfarfod cyhoeddus.**

Adroddwyd gan y Cadeirydd yn absenoldeb y Cynghorydd Rhys Parry, fod cais wedi dod i law i gynnal cyfarfod cyhoeddus.

Adroddwyd fod tua 1,000 o enwau bellach ar y ddeiseb ac nid yw'n bosib cael dim adborth oddi wrth Gyngor Gwynedd. Roedd yr aelod o'r cyhoedd am wybod sut i gyflwyno deiseb at Gyngor Gwynedd a ac fe roddwyd cyngor ar sut i wneud hyn.

**Penderfynwyd:**

a) Peidio cynnal cyfarfod cyhoeddus ar hyn o bryd ac aros i weld yr ymateb i'r ddeiseb.
b) Cadarnhaodd y Cynghorydd Beca Brown fod y cynllun ar ddal ar hyn o bryd

Daeth y cyfarfod i ben am 20:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Rhagfyr 2023